OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 30 (Cy. 12)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Man i'r De o'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *16 Ionawr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Man i'r De o'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, ar gyfer cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, ar gyfer y gwasanaeth bws T4 neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 16 Ionawr 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau a ganlyn o’r gefnffordd yn Sir Powys:

i. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 10 metr i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r U2826 hyd at bwynt 328 o fetrau i’r de o’r gyffordd honno;

ii. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â’r C1203 (Cyffordd Llaethdy) hyd at bwynt 120 o fetrau i’r de o’i chyffordd â’r U2964 (sy’n arwain at yr annedd o’r enw Cwmyrhiwdre);

iii. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 653 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r U1298 (Garn Road) hyd at bwynt 853 o fetrau i’r de o’r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n 2.5 metr o led neu’n lletach, ac eithrio cerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o’r fath fynd, ar y darnau o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Ionawr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru